Carwyn Jones AM/AC

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
Counsel General and Leader of the House

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

6 Mawrth 2009

Annwyl Dafydd

RHEOLIADAU DEUNYDDIAU AC EITEMAU PLASTIG MEWN CYSYLLTIAD Â BWYD (CYMRU) 2009

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu y bu'n rhaid torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn dod â Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2009 i rym yng Nghymru yn unol â gweddill y DU. Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud ar 4 Mawrth 2009 a'u gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2009 a byddant yn dod i rym ar 7 Mawrth 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith Gyfarwyddeb 2008/39 EC y Comisiwn yng Nghymru. Dyma'r pumed diwygiad i Gyfarwyddeb 2002, sy'n diweddaru'n rheolaidd restr y Gymuned Ewropeaidd o'r sylweddau monomer awdurdodedig a'r ychwanegion a gymeradwyir ar gyfer eu defnyddio i gynhyrchu plastigau sy'n dod i gysylltiad â bwyd, ac yn pennu'r amodau angenrheidiol ar gyfer eu defnyddio'n ddiogel. Cemegyn cyfansawdd, organig yn bennaf, yw monomer, sy'n cynnwys moleciwlau syml. Mae'r Gyfarwyddeb newydd hefyd yn gwahardd defnyddio ychwanegion nad ydynt ar restr y Gymuned o ychwanegion a ddefnyddir i gynhyrchu deunyddiau ac eitemau plastig. Er nad yw'r Rheoliadau hyn yn ddadleuol, maent yn diwygio deddfwriaeth gynharach i ymestyn y diogelwch i ddefnyddwyr rhag cemegau y mae'r diwydiant yn derbyn bod angen eu rheoli ar fyrder.

Caiff y newidiadau i'r rhestrau hyn o sylweddau eu gwneud o bryd i'w gilydd pan fo Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) yn adolygu barn a roddwyd eisoes neu'n cyhoeddi barn newydd ar ddefnyddio sylwedd yn dilyn asesiad risg. Y farn hon sy'n pennu faint o sylwedd penodol y gall person ei gymryd yn feunyddiol drwy gydol ei oes heb beri niwed i'w iechyd. Caiff y barnau hyn eu defnyddio gan y Comisiwn Ewropeaidd fel y sail ar gyfer cynigion y cytunir arnynt ag Aelod-wladwriaethau'r UE.

Mae'r Gyfarwyddeb newydd hefyd yn pennu'r dyddiad cau ar gyfer y rhestr o ychwanegion y caniateir eu defnyddio wrth gynhyrchu plastigau sy'n dod i gysylltiad â bwyd, gan wneud trefniadau interim ar gyfer yr ychwanegion hynny a oedd yn destun cais am awdurdodiad erbyn y terfyn amser o fis Rhagfyr 2006; mae'n pennu'r dyddiad pryd y bydd y caniatâd i barhau i ddefnyddio ychwanegion nad ydynt ar y rhestr gadarnhaol yn dod i ben (31

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 029 2082 8055
Ffacs * Ffacs 029 2089 8475
Correspondence.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Rhagfyr 2009). Yn ystod y cyfnod hwn gall yr EFSA gael gafael ar unrhyw wybodaeth atodol y gallai fod arno ei angen ar gyfer ei asesiad risg o'r ychwanegiadau dan sylw. Mae'r Gyfarwyddeb hefyd yn gwahardd defnyddio ychwanegion nad ydynt ar restr y Gymuned o ychwanegion. Yn ogystal, mae'n caniatáu prynu a gwerthu a defnyddio deunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd ac sy'n cydymffurfio â Chyfarwyddeb 2002/72/EC, fel y'i diwygiwyd, o 7 Mawrth 2009 ac yn gwahardd, o 7 Mawrth 2010, gynhyrchu a mewnforio i'r Gymuned ddeunyddiau ac eitemau plastig sydd mewn cysylltiad â bwyd nad ydynt yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb, fel y'i diwygiwyd. Mewn gwirionedd, mae hyn yn creu cyfnod o gael gwared yn raddol ar sylweddau sydd naill ai wedi'u tynnu o restr y Gymuned, neu nad ydynt wedi'u cynnwys arni. O dan Gyfraith Ewrop, mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau drosi a gweithredu darpariaethau'r Gyfarwyddeb hon erbyn 7 Mawrth 2009.

Yn anffodus, o ganlyniad i ailstrwythuro o fewn yr Asiantaeth, nid oedd yn bosibl dechrau'r ymgynghoriad cyhoeddus deuddeg wythnos o hyd tan ddiwedd mis Medi 2008. Yn ogystal, ni wnaeth Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru dderbyn y fersiwn derfynol o'r Offeryn Statudol drafft ar gyfer Lloegr tan 4 Chwefror 2009. O ganlyniad, ni fu'n bosibl gwneud y Rheoliadau drwy'r weithdrefn negyddol, gan na fyddent wedi cwrdd â'r dyddiad dod i rym, sef 7 Mawrth 2009.

Bydd Rheoliadau cyfochrog yn dod i rym yn Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ar 7 Mawrth 2009. O ganlyniad, mae'n rhaid sicrhau bod ein deddfwriaeth yn unol â'r deddfwriaeth yng ngweddill y DU. Gallai peidio â gwneud i'r ddeddfwriaeth yng Nghymru ddod i rym ar yr un dyddiad arwain at gyhuddiadau o beryglu iechyd y cyhoedd ar gyfer defnyddwyr yng Nghymru. Byddai hefyd yn ddryslyd ar gyfer cynhyrchwyr gan y byddai'r rheolau ar gyfer plastigau mewn cysylltiad â bwyd yng Nghymru yn wahanol i'r rhai ar gyfer gweddill y DU. O ganlyniad, er mwyn sicrhau cysondeb o ran gorfodi ar draws y DU, a sicrhau bod defnyddwyr yng Nghymru yn cael yr un warchodaeth rhag bwyta bwydydd sy'n cynnwys cemegau a ddefnyddir wrth gynhyrchu deunyddiau ac eitemau sydd mewn cysylltiad â bwyd (megis deunyddiau a allai fod yn wenwynig neu'n fwtagenig, sy'n golygu y gallant newid gwybodaeth enetig ffisegol a chemegol organeb a pheri canser) â defnyddwyr mewn rhannau eraill o'r DU, mae'n angenrheidiol torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn i'r Rheoliadau ddod i rym yng Nghymru ar 7 Mawrth 2009.

Oherwydd hyd a natur gymhleth y Rheoliadau, ynghyd â'r angen i'w cyflwyno yng Nghymru er mwyn eu rhoi ar waith ar 7 Mawrth 2009, mae'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol wedi barnu na fyddai'n rhesymol nac yn ymarferol disgwyl iddynt gael eu llunio'n ddwyieithog o fewn yr amserlen dan sylw. Serch hynny, bydd cyfieithiad Cymraeg o'r rheoliadau ar gael maes o law.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi bod yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi hefyd, sy'n cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac mae hwn wedi'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Janet Ryder, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ac at Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

Yn gywir